Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Ffestiniog
# Ysgol Bro Cynfal
# Llan Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 4NF

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llan Ffestiniog yn lleoliad meithrin cofrestredig ac yn rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.  Cylch meithrin gwirfoddol yw'r lleoliad sy'n cael ei redeg gan bwyllgor o rieni.  Mae'n cyfarfod am bum bore'r wythnos mewn ystafell ddosbarth yn ysgol gynradd Bro Cynfal, Llan Ffestiniog.  Pentref bychan gwledig yw Llan Ffestiniog sydd ym marn y lleoliad gyda nifer o deuluoedd gydag incwm isel.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynnau.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.   Mae chwe phlentyn tair oed yn mynychu'r lleoliad ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan bron pob plentyn.  Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Bu'r ddwy flynedd diwethaf yn gyfnod ansefydlog iawn i'r lleoliad ac yn arbennig, mewn perthynas ag arweinyddion a staff parhaol.  Ar hyn o bryd, mae'r staff yn cynnwys arweinydd dros-dro ynghyd â dwy ymarferydd llawn-amser.  Maent oll wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Ebrill eleni.  Dyma ei arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ystod eang o brofiadau dysgu diddorol yn bodloni anghenion addysgol a phersonol yr holl blant yn dda ac yn sicrhau eu hymglymiad i'w dysgu;
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd angenrheidiol;
- ymarferwyr yn darparu amgylchedd ddysgu ysgogol, heriol a chyffrous ar gyfer pob plentyn;
- gwybodaeth asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer ymateb i anghenion penodol plant unigol;
- pob plentyn yn dod i'r lleoliad yn hapus a'r lleoliad yn eu helpu'n dda i gyflawni eu lles emosiynol a chorfforol;
- pob plentyn yn gallu manteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol; a
- chyflenwad da o adnoddau o ansawdd da bron ym mhob maes dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y synnwyr cryf o ddiben a grëir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol;
- dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda a pholisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol;
- y lleoliad yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn gwybod yn dda beth yw ei gryfderau a'r meysydd i'w datblygu;
- y lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref;
- ystod eang o bartneriaid yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

R1. Cynyddu'r cyflenwad o raglenni cyfrifiadurol.

R2. Cynnwys y rhieni ym mhrosesau hunan-arfarnu.

R3. Ffurfioli'r trefniadau ar gyfer gwerthuso staff.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

O dan gyfarwyddyd yr arweinydd, mae ymarferwyr yn llwyddo'n dda i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sydd wedi'u teilwrio'n ofalus ar gyfer bodloni anghenion addysgol a phersonol yr holl blant. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn ymgolli'n llwyr yn eu gwaith, yn ymroi'n frwdfrydig i'r gweithgareddau a darperir ar eu cyfer ac yn gwneud cynnydd da. Trwy gydgynllunio gofalus, mae'r lleoliad yn sicrhau bod holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen wedi'u hintegreiddio'n grefftus i'r profiadau dysgu fel bod y cwricwlwm yn adeiladau'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae hyn yn gwarantu bod dilyniant a pharhad yn nysgu plant wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ffocws cryf a roddir ar ddysgu gweithredol yn darparu nifer helaeth o gyfleoedd i blant fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd yn hyderus a dod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r amrediad eang o weithgareddau creadigol, megis peintio a chreu modelau tri dimensiwn, yn hyrwyddo datblygiad medrau creadigol plant yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd dyddiol a gaiff plant i chwarae y tu allan ar fuarth yr ysgol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad eu medrau corfforol ynghyd â'u hiechyd a lles. Mae'r profiadau dysgu hyn hefyd yn galluogi plant i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol pwysig ac yn arbennig y gallu i gydweithio a rhannu gyda phlant eraill.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd angenrheidiol sydd eu hangen arnynt er mwyn manteisio'n llawn o'r amrediad o weithgareddau cwricwlaidd a ddarperir ar eu cyfer. Mae gallu ymarferwyr i annog plant i drafod ac egluro eu profiadau dysgu, i rannu eu syniadau gyda phlant eraill ac i wrando'n astud ar gyfraniadau plant eraill ac oedolion o'u cwmpas, yn gryfder amlwg yn y lleoliad. Bydd ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau rhifedd plant, er enghraifft trwy gydgyfrif faint sy'n bresennol neu drwy gannu rhigymau rhif, ac yn cynnwys nifer dda o weithgareddau rhif yn y ddarpariaeth barhaus. Er bod darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant, mae prinder rhaglenni cyfrifiadurol yn cyfyngu ar amrediad y profiadau gellir eu cynnig.

Mae'r pwyslais cryf a roddir ar ddathlu gwyliau a thraddodiadau Cymru ac ar ddysgu am ddathliadau diwylliannau eraill, yn cryfhau hunaniaeth bersonol plant ac yn codi eu hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r lleoliad yn gweithredu'n gynaliadwy ac yn sicrhau fod gan blant rôl weithredol yn ei threfniadau ailgylchu.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddarparu amgylchedd ddysgu ysgogol, heriol a chyffrous ar gyfer pob plentyn. Ar ddechrau sesiynau, maent yn egluro'r gweithgareddau a ddarparwyd yn ofalus ac yn annog ymglymiad llawn bob plentyn i'r gwaith dan sylw. Mae disgwyliadau clir o ran cyflawniad gydag ymarferwyr yn addasu rhai tasgau yn grefftus iawn ar gyfer herio plant o'r holl ystod gallu. Maent yn amyneddgar, yn annog plant i fynegi barn ac yn gwybod pa bryd i ymyrryd er mwyn symud dysgu yn ei flaen. Trwy gynllunio manwl, llwydda ymarferwyr i gadw cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rheini gaiff eu harwain neu eu cyfarwyddo gan oedolyn. Nodwedd amlwg ym mhob sesiwn yw'r pwyslais cryf a roddir ar ddarparu cyfleoedd i blant fod yn weithredol yn eu dysgu ac i wneud dewisiadau personol.

Mae perthynas waith arbennig o glos rhwng plant ac oedolion gyda'r naill yn parchu'r llall. Pan fod ymagweddu neu ymddygiad annerbyniol gan blant, bydd ymarferwyr yn ymateb i'r sefyllfaoedd yn sensitif ond cadarn.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr a chyfoes am gryfderau ac anghenion dysgu pob unigolyn ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol er mwyn cadw llygaid ar gynnydd plant ac ar gyfer sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae'r arfer ddyddiol o arsylwi a chofnodi ymateb plant i'w tasgau, yn galluogi ymarferwyr i deilwrio profiadau dysgu ar gyfer ymateb i anghenion penodol plant unigol. Trwy'r 'Llyfr Trysor,' gall ymarferwyr olrhain cynnydd plentyn yn fanwl ar draws y chwe maes dysgu ac ymyrryd yn gynnar pan fo angen. Mae'r llyfryn a drosglwyddir i rieni ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn y lleoliad, yn gofnod gweledol diddorol o gynnydd a datblygiad eu plentyn dros gyfnod.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Daw pob plentyn i'r lleoliad yn hapus ac yn siriol. Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Trwy annog y rhieni i ddarparu byrbrydau iach i'w plant, glanhau'r dannedd ar ddechrau pob sesiwn a golchi dwylo cyn bwyd, hybir arferion hylendid a bwyta'n iach yn effeithiol iawn. Trwy ddarparu cyfleoedd dyddiol i blant rannu eu profiadau a chymryd rhan yn rheolaidd mewn ymarfer corfforol, mae'r lleoliad yn helpu plant yn dda i gyflawni eu lles emosiynol a chorfforol. Mae trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn rhydd o unrhyw aflonyddwch corfforol neu emosiynol. Anogir pob plentyn i gymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad ac i ymgymryd â dyletswyddau, megis 'helpwr heddiw,' twtio ar ddiwedd sesiwn neu rannu adnoddau.

Darperir yn dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu chwilfrydedd a synnwyr o ryfeddod plant am y byd y maent yn byw ynddo, ac yn arbennig am fyd natur. Yn ogystal, caiff gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch eu hybu'n gryf drwy holl waith y lleoliad. Mae plant yn cael eu hannog i ddangos blaengaredd, i reoli eu hymddygiad a bod yn fodlon i rannu adnoddau gyda phlant eraill.

Mae’r arweinydd yn gweithredu’n fuan os oes pryder ynghylch datblygiad neu les unrhyw blentyn.  Pan fo angen cymorth neu gefnogaeth arbenigol ar blentyn neu riant, mae’n gwybod yn dda gyda phwy i gysylltu.

Mae’r trefniadau sefydlu da ynghyd â gofal ymarferwyr, yn sicrhau bod plant sy’n newydd yn y lleoliad yn ymgynefino’n ddidrafferth

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall pob plentyn fanteisio’n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.  Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Ac eithrio TGCh, mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu.  Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd da o’r ardal leol, ynghyd â’r ardal y tu allan i’r ystafell ddosbarth, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Defnyddia’r lleoliad adnoddau a phobl yn y gymuned leol yn bwrpasol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cynnig mynegiad llawn i unrhyw ddisgyblion ag anableddau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd, mae’r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben gyda phlant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio’n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu’n llwyddiannus. Mae’r synnwyr cryf o ddiben a grëir gan yr arweinydd yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol.  Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli’n dda, ac mae polisïau’r lleoliad yn cael eu gweithredu’n effeithiol.  Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni’n gydwybodol yn ystod sesiynau.  Mae perthynas gyda phlant, rhieni a’r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu’n arwyddocaol i synnwyr o gymuned.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer sefydlu staff newydd gydag aelodau’r pwyllgor rheoli yn cymryd rôl weithredol yn y broses.  Er bod gweithdrefnau anffurfiol ar gyfer gwerthuso staff, nid oes cofnodion o’r trafodaethau ac nid oes ffocws digon clir ar adnabod anghenion hyfforddiant yr unigolyn.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol.  Mae swyddogion y pwyllgor yn ymgynghori ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weinyddiaeth y lleoliad.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu.  Drwy anogaeth yr arweinydd, maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella.  Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.  Er bod y lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol yr awdurdod lleol wrth hunan-arfarnu, nid oes trefniadau digon clir ar gyfer cynnwys y rhieni yn y broses.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu ddiweddar, ynghyd â'r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad.  Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu'n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd a'r ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.  Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref.  Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.  Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol iawn sydd gyda'r ysgol gynradd yn hwyluso trefniadau trosglwyddo yn sylweddol ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn addysg y plant.  Mae'r arweinydd ag athrawes y Cyfnod Sylfaen mewn cyswllt dyddiol ac mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o ddefnyddio buarth yr ysgol a hefyd o ymuno â'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu haddoliadau ar y cyd.  Mae lleoliad hefyd yn manteisio ar barodrwydd pobl o'r gymuned, er enghraifft ffermwr lleol, i rannu eu profiadau gyda'r plant.  Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni ym mhob agwedd o waith y lleoliad trwy eu hysbysu'n rheolaidd am yr holl weithgareddau a'u hannog i gyfranogi yn addysg eu plant.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes gysylltiol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.  Mae'r arweinydd hefyd yn derbyn cefnogaeth reolaethol dda gan swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer unigolion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir y staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a thrysorydd y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**
Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |